

Safonau'r Gymraeg

Safon 110

“Cynyddu’r gallu i gynnig ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg”

Cynllun Gweithredu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr 2023 – 2028

Cynnwys

Tabl cynnwys

Crynodeb Gweithredol.....	3
ADRAN 1: ADRODDIAD BLYNYDDOL	4
2. Cyflwyniad a chefnidir	4
3. Ein dulliau o sicrhau cynnydd yn y cynnig o ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg	4
4. Deilliant 1: Gwell Prosesau Recriwtio sy'n nodi gallu yn y Gymraeg ar y pwynt ymuno, gan gefnogi'r gwaith o gyflawni Safon 110	6
5. Deilliant 2: Gwell Prosesau Cynefino sy'n amlygu pwysigrwydd y Gymraeg yn BIPBC a chyflwyno'r "Cynnig Rhagweithiol" a chyfleu'r cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer dysgu Cymraeg	6
6. Deilliant 3: Nodi argaeledd a hyfedredd yn y Gymraeg yn llawn ac yn gywir ledled BIPBC ar lefel a fydd yn cefnogi Cynllunio Gweithredol	6
7. Deilliant 4: Cynllunio Lleol ar lefel Ysbyty ac Arbenigedd sy'n caniatáu argaeledd a hyfedredd yn y Gymraeg i fod yn un o'r meini prawf i'w bodloni.....	7
8. Deilliant 5: Gwell Prosesau Gweithredol sy'n cefnogi ac yn tanategu defnyddio Safon 110 mewn Ysbytai	7
9. Deilliant 6: Gwell Cyfathrebu ac Ymgysylltu am Hyfforddiant Cymraeg ac Argaeledd ar draws BIPBC.....	7
10. Deilliant 7: Rhoi Fframwaith adrodd ar waith sy'n cefnogi cynllunio gweithredol ac yn amlygu'r cynnydd a wneir.....	7
11. Datblygu Cynllun Gweithredu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer Safon 110 (2019 – 2024)	9
12. Blaenoriaethau'r flwyddyn nesaf	9
ADRAN 2 - CYNLLUN GWEITHREDU A BLAENORIAETHAU AR GYFER 2019 - 2024	9
1. Mesurau perfformiad a rheoli	10
2. Deilliant 1 – Camau Gweithredu a Chyflawniadau	11
3. Deilliant 2 – Camau Gweithredu a Chyflawniadau	12
4. Deilliant 3 – Camau Gweithredu a Chyflawniadau	13
5. Deilliant 4 – Camau Gweithredu a Chyflawniadau	14
6. Deilliant 5 – Camau Gweithredu a Chyflawniadau	16
7. Deilliant 6 – Camau Gweithredu a Chyflawniadau	19
Deilliant 6: Gwella Cyfathrebu ac Ymgysylltu ar Hyfforddiant Iaith Gymraeg ac Argaeledd ar draws BIPBC	19
8. Deilliant 7 – Camau Gweithredu a Chyflawniadau	20

Crynodeb Gweithredol

Yn unol ag Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a Safon 110 yn benodol, mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gyhoeddi cynllun ar gyfer pob cyfnod o 5 mlynedd sy'n nodi –

- (a) I ba raddau y gallwch gynnig cynnal ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg;
- (b) Amserlen ar gyfer y camau gweithredu yr ydych wedi manylu arnynt yn (a).

Er mwyn datblygu gweithlu sy'n gallu darparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg, mae'n hollbwysig bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y Bwrdd Iechyd) yn deall anghenion y boblogaeth, a'r capasiti ar gyfer darparu gwasanaethau Cymraeg yng Ngogledd Cymru. Mae data'r Cofnod Staff Electronig (ESR) yn dangos bod 94% o'r staff wedi cwblhau asesiad unigol o'u cymhwysedd yn y Gymraeg. Felly, mae sicrhau adolygiad parhaus o gymwyseddau'r Gymraeg ar ESR yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Iechyd er mwyn iddo gynnal metrigau i fonitro cynnydd a chanfod gwaelodlin gywir sgiliau Cymraeg y gweithlu.

Darperir sesiwn Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel rhan o'r rhaglen gynefino gorfforaethol er mwyn sicrhau bod staff newydd yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd y 'Cynnig Rhagweithiol' a gofynion Safonau'r Gymraeg. Cyflwynwyd Pecyn E-Ddysgu ar ESR fel rhan o'r rhaglen hyfforddi orfodol i bob aelod o staff, ac mae cydymffurfiaeth yn cael ei fonitro'n flynyddol.

Mae ein Tîm Hyfforddiant Cymraeg mewnol hefyd yn cynnig amrywiaeth eang o gyrsiau i staff i wella eu sgiliau Cymraeg.

Mae mynd i'r afael ag anghenion y boblogaeth yn ffactor allweddol wrth lunio'r cynllun 5 mlynedd sy'n ofyniad o dan Safonau'r Gymraeg i ddangos cynnydd yn ein gallu i gynnig ymgynghoriadau clinigol yn y Gymraeg.

Byddwn hefyd yn canolbwyntio'n benodol ar gynyddu'r cynnig o ymgynghoriadau clinigol yn y Gymraeg yn y gwasanaethau y mae'r 'grwpiau agored i niwed' a nodir yn y Strategaeth 'Mwy na Geiriau' yn cael mynediad atynt. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Plant a phobl ifanc
- Pobl hŷn
- Pobl ag anableddau dysgu
- Defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl
- Pobl sy'n byw â Dementia
- Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau Therapi Iaith a Lleferydd
- Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau strôc

Mae'r cynllun 5 mlynedd yn rhoi cyfeiriad strategol clir i'r bwrdd iechyd o ran cydymffurfio â Safon 110.

ADRAN 1: ADRODDIAD BLYNYDDOL

2. Cyflwyniad a chefnidir

Cymeradwywyd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chafodd gydsyniad brenhinol ar 9 Chwefror 2011. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn rhoi statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru, ac yn atgyfnerthu'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru. Mae'r mesur hefyd yn:

- Creu'r weithdrefn ar gyfer gosod dyletswyddau ar sefydliadau ar ffurf Safonau'r Gymraeg ("y Safonau").
- Sefydlu rôl Comisiynydd y Gymraeg ("y Comisiynydd") i graffu ar gydymffurfiaeth.
- Rhoi pŵer i'r Comisiynydd ymchwilio i unrhyw honiadau o ymyrryd â rhyddid unigolyn i ddefnyddio'r Gymraeg.

Paratowyd y ddogfen hon yn unol â'r gofynion a osodwyd ar y Bwrdd Iechyd o dan Safonau'r Gymraeg, Adran 26 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae Adran 26 o Fesur 2011 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu Safonau, ac mae Adran 39 yn eu galluogi i ddarparu bod Safon yn gymwys i unigolyn penodol drwy awdurdodi'r Comisiynydd i ddyroddi hysbysiad cydymffurfio rheoleiddiol. Gosodwyd hysbysiad cydymffurfio ar ffurf Safonau, ar y Bwrdd Iechyd ar 30 Mai 2019. Cyhoeddwyd y canllawiau ar gyfer Safon 110 yn 2022.

Yn ôl Cyfrifiad 2021, mae 55.8% o bobl Ynys Môn yn siarad Cymraeg; 64.4% yng Ngwynedd; 25.9% yng Nghonwy; 22.5% yn Sir Ddinbych, 11.6% yn Sir y Fflint a 12.2% yn Wrecsam.

Mae Safon 110 yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd gyhoeddi cynllun iaith Gymraeg corfforaethol 5 mlynedd, sy'n nodi i ba raddau y mae'n gallu cynnig cynnal ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg a'r camau y mae'n bwriadu eu cymryd i gynyddu ei allu i gynnig ymgynghoriad clinigol yn Gymraeg.

3. Ein dulliau o sicrhau cynnydd yn y cynnig o ymgynghoriadau clinigol yn Gymraeg

Gweledigaeth y Bwrdd Iechyd yw y byddwn ni erbyn 2028, yn gallu cynnig ymgynghoriadau clinigol Cymraeg i'n defnyddwyr gwasanaeth yng ngogledd Cymru sy'n gymharol ag anghenion ieithyddol y cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Crëwyd Rhaglen y Gymraeg Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i alluogi Safon 110 a'r "Cynnig Rhagweithiol" i gael eu normaleiddio fel rhan o'r cynnig i gleifion yng ngogledd Cymru. Felly, nod Rhaglen y Gymraeg BIPBC yw

"Darparu Safon 110 a'r "Cynnig Rhagweithiol" fel rhan o'r arlwy busnes fel arfer ledled BIPBC a gwella cynllunio i alluogi BIPBC i ddeall pan nad yw anghenion cleifion yn cael eu diwallu, a rhoi cynlluniau gweithredu unioni ar waith i oresgyn hyn."

Ein Hamcanion ar gyfer Rhaglen y Gymraeg sy'n cynyddu'r cynnig o ymgynghoriadau clinigol yn y Gymraeg yw:

- Creu Cynllun 5 mlynedd ar gyfer cyflawni Safon 110
- Cael dealltwriaeth glir a chywir am y boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yng ngogledd Cymru
- Cael dealltwriaeth glir a chywir am hyfedredd y gweithlu yn y Gymraeg
- Pennu targed clir a chywir ar gyfer y nifer gofynnol o staff sy'n hyfedr yn y Gymraeg
- Llunio Cynllun Gweithredu i godi gwaelodlin Poblogaeth a Hyfedredd y Gymraeg i'r lefel ofynnol
- Creu adroddiadau sy'n galluogi Adran y Gymraeg i wneud penderfyniadau gweithredol sydd wedi'u targedu
- Cynnal ymyriadau wedi'u targedu i wella unrhyw feysydd sy'n tanberfformio'n lleol
- Mwy o Gyfathrebu ac Ymgysylltu â chydweithwyr BIPBC am anghenion sy'n ymwneud â'r Gymraeg ac argaeledd hyfforddiant y Gymraeg yn BIPBC
- Cynnwys y Gymraeg wrth gynllunio ym mhob maes gweithredol - o recriwtio i gynllunio sifftiau
- Creu adroddiadau sy'n amlygu'r cynnydd a wneir i Fforwm Strategol y Gymraeg

Er mwyn cyflawni'r amcanion hyn mae'n rhaid i BIPBC hyrwyddo nifer o Ddeilliannau, sef;

- Gwell Prosesau Recriwtio sy'n nodi gallu yn y Gymraeg ar y pwynt ymuno, gan gefnogi'r gwaith o gyflawni Safon 110
- Gwell Prosesau Cynefino sy'n amlygu pwysigrwydd y Gymraeg yn BIPBC a chyflwyno'r "Cynnig Rhagweithiol" a chyfleu'r cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer hyfforddiant Cymraeg
- Nodi hyfedredd yn y Gymraeg yn llawn ac yn gywir ledled y bwrdd iechyd ar lefel a fydd yn cefnogi Cynllunio Gweithredol
- Cynllunio Lleol ar lefel Ysbyty ac Arbenigedd sy'n caniatáu argaeledd a hyfedredd yn y Gymraeg i fod yn un o'r meini prawf i'w bodloni
- Mwy o Brosesau Gweithredol sy'n cefnogi ac yn tanategu defnyddio Safon 110 mewn lleoliadau aciwt a chymunedol
- Gwell Cyfathrebu ac Ymgysylltu am Hyfforddiant Cymraeg ac Argaeledd ledled BIPBC
- Gweithredu Fframwaith adrodd sy'n cefnogi'r cynllunio gweithredol ac yn amlygu'r cynnydd a wneir

Nod y ddogfen hon yw nodi'r meysydd newid sydd eu hangen er mwyn i Raglen y Gymraeg fod yn llwyddiannus wrth ysgogi'r gwelliannau i gyflawni Safon 110 a'r "Cynnig Rhagweithiol". Yna, bydd y ddogfen hon yn amlinellu'r camau gweithredu disgwylfedig fesul Deiliant sydd eu hangen i ysgogi'r gwelliannau yn ystod y cynllun 5 mlynedd. Bydd y ddogfen yn;

- nodi sut y byddwn yn casglu'r wybodaeth am waelodlin Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr;
- nodi sut y byddwn yn mesur y cynnydd a wnawn yn erbyn pob un o'n Deiliannau;
- amlygu'r camau gweithredu a'r hyn sydd angen ei gyflawni ar gyfer taith pob Deiliant dros 5 mlynedd.

4. Deiliant 1: Gwell Prosesau Recriwtio sy'n nodi gallu yn y Gymraeg ar y pwynt ymuno, gan gefnogi'r gwaith o gyflawni Safon 110

Byddwn yn mesur cynnydd yn erbyn y deiliant hwn gan ddefnyddio'r dangosyddion canlynol:

- **Mesur 1** : Nifer y Cydweithwyr Newydd sy'n siarad / deall Cymraeg - bob chwarter
- **Mesur 2**: % y Cydweithwyr Newydd sy'n siarad / deall Cymraeg - bob chwarter

Mesurau Eilaidd: Nifer a % y Siaradwyr Cymraeg fesul Rhanbarth/ Arbenigedd yn ôl Lefel 1 i 5 – bob 6 mis

5. Deiliant 2: Gwell Prosesau Cynefino sy'n amlygu pwysigrwydd y Gymraeg yn BIPBC a chyflwyno'r "Cynnig Rhagweithiol" a chyfleu'r cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer dysgu Cymraeg

Byddwn yn mesur cynnydd yn erbyn y deiliant hwn gan ddefnyddio'r dangosyddion canlynol:

- **Mesur 3:** Nifer y Cydweithwyr sy'n dilyn Cyrsiau Cymraeg (yn ôl math o gwrs) – ddwywaith y flwyddyn
- **Mesur 4:** Nifer y Cydweithwyr sy'n llwyddo mewn Cyrsiau Cymraeg (yn ôl math o gwrs) – ddwywaith y flwyddyn
- **Mesur 5:** % y Cydweithwyr sy'n ymgymryd â Phhecyn E-ddysgu Cymraeg – bob blwyddyn

Mesurau Eilaidd: Nifer a % y Siaradwyr Cymraeg fesul Rhanbarth/ Arbenigedd yn ôl Lefel 1 i 5 – bob 6 mis

6. Deiliant 3: Nodi argaeledd a hyfedredd yn y Gymraeg yn llawn ac yn gywir ledled BIPBC ar lefel a fydd yn cefnogi Cynllunio Gweithredol

Byddwn yn mesur cynnydd yn erbyn y deiliant hwn gan ddefnyddio'r dangosyddion canlynol:

- **Mesur 6:** Nifer y Siaradwyr Cymraeg fesul Rhanbarth/ Arbenigedd yn ôl Lefel, 1 hyd at 5 – bob 6 mis
- **Mesur 7:** % y Siaradwyr Cymraeg fesul Rhanbarth/ Arbenigedd yn ôl Lefel, 1 hyd at 5 – bob 6 mis

Mesurau Eilaidd: Dim

7. Deilliant 4: Cynllunio Lleol ar lefel Ysbyty ac Arbenigedd sy'n caniatáu argaeledd a hyfiedredd yn y Gymraeg i fod yn un o'r meini prawf i'w bodloni

Bydd hyn yn gofyn am Newid Proses a datblygu Isafswm Safonau fesul sifft fesul Rhanbarth fesul Arbenigedd. Yna bydd angen i'r cydweithiwr sy'n creu rhestr staffio'r sifft i fodloni'r gofynion hyn

- **Gofyniad 1:** Dealltwriaeth o'r Boblogaeth sy'n Siarad Cymraeg yn y rhanbarth hwnnw
- **Gofyniad 2:** Datblygu isafswm gofynion staffio siaradwyr Cymraeg yn ôl sifft
- **Gofyniad 3:** Cynnwys meini prawf isafswm wrth Gynllunio Sifftiau
- **Mesur 8:** % Bodlonrwydd â'r Ddarpariaeth Gymraeg

8. Deilliant 5: Gwell Prosesau Gweithredol sy'n cefnogi ac yn tanategu defnyddio Safon 110 mewn Ysbytai

Byddwn yn mesur cynnydd yn erbyn y deilliant hwn gan ddefnyddio'r dangosyddion canlynol:

- **Mesur 9:** % Ysbyty / Adran yn gwisgo bathodynnew laith Gwaith (Adnabod Siaradwyr Cymraeg) – Cynllun Siopwr Cudd ac adborth (bob chwarter)
- **Mesur 10:** Nifer / % Cynnig Rhagweithiol ar gyfer Ymgynghoriadau Cymraeg – Cynllun Siopwr Cudd ac adborth (bob chwarter)

Mesurau Eilaidd: % y Cydweithwyr sy'n ymgymryd â Phhecyn E-ddysgu Cymraeg – bob blwyddyn

9. Deilliant 6: Gwell Cyfathrebu ac Ymgysylltu am Hyfforddiant Cymraeg ac Argaeledd ar draws BIPBC

Byddwn yn mesur cynnydd yn erbyn y deilliant hwn gan ddefnyddio'r dangosyddion canlynol:

- **Mesur 11:** Nifer yr Ymwelwyr Newydd i'r Dudalen Gymraeg - bob mis
- **Mesur 12:** Nifer yr Ymwelwyr i'r Dudalen Gymraeg - bob mis
- **Mesur 13:** Nifer y Trawiadau ar y Dudalen Gymraeg - bob mis
- **Mesur 14:** 5 tudalen mwyaf poblogaidd y Wefan Gymraeg - bob mis

Mesurau Eilaidd: % y Cydweithwyr sy'n ymgymryd â Phhecyn E-ddysgu Cymraeg – bob blwyddyn

10. Deilliant 7: Rhoi Fframwaith adrodd ar waith sy'n cefnogi cynllunio gweithredol ac yn amlygu'r cynnydd a wneir

Byddwn yn mesur cynnydd yn erbyn y deilliant hwn gan ddefnyddio'r dangosyddion canlynol:

- **Mesur 15:** % Pecynnau Adrodd Rhaglen y Gymraeg sydd wedi'u cynhyrchu ar amser - bob mis
- **Mesur 16:** % Cynlluniau Gweithredu Adolygu Rhaglen y Gymraeg sydd wedi'u cynhyrchu ar amser - bob mis

Mesurau Eilaidd: Gwelliannau ym mhob mesur 1 i 16

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd lechyd lunio a chyhoeddi cynllun i nodi, monitro a gwerthuso'r camau gweithredu sydd eu hangen yn unol ag amserlenni penodol. Arweinydd Gweithredol y Bwrdd lechyd yw'r rôl sy'n gyfrifol am y Gymraeg. Adroddir yn ffurfiol ar gynnydd i'r Bwrdd drwy drefniadau llywodraethu sydd eisoes wedi'u sefydlu, gan gynnwys Fforwm Strategol y Gymraeg.

Yn unol â'r gofynion, byddwn yn cyhoeddi'r adroddiadau cynnydd i'r Bwrdd ar ein gwefan ar ôl cyfnod o 3 a 5 mlynedd. Rydym eisoes wedi adolygu ein cynnydd yn erbyn yr adroddiad blynyddol a gynhyrchwyd yn 2023 a'i gyflwyno i Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg. O ganlyniad, rydym wedi diweddarau ein cynllun gweithredu i sicrhau y bydd yn ein galluogi i ymateb yn well i'r heriau a nodwyd yn yr adroddiad. Bydd hyn yn sicrhau bod y sefydliad mewn gwell sefyllfa i fodloni gofynion Safon 110.

11. Datblygu Cynllun Gweithredu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer Safon 110 (2019 – 2024)

Yn dilyn ein hasesiad o gynnydd yn erbyn blaenoriaethau, rydym wedi adolygu sut y gallai fod angen i ni newid y gwasanaeth a ddarperir. Rydym wedi datblygu camau gweithredu ar gyfer cyfnod y cynllun hwn ac yn benodol, y camau gweithredu a'r deilliannau yr ydym yn dymuno eu gweld yn digwydd dros y 5 mlynedd nesaf.

Bu'n rhaid nodi'r holl ddata a gasglwyd yn Chwarter olaf 2023-23 i osod gwaelodlin i'w mesur er mwyn monitro cynnydd fel deiliant holl gamau'r cynllun hwn.

12. Blaenoriaethau'r flwyddyn nesaf

Nod y Cynllun Gweithredu yw gwella deilliannau rhwng nawr a 2028. Rydym hefyd wedi nodi blaenoriaethau ar gyfer 2023 - 2024 sy'n adlewyrchu ein heriau lleol fel a ganlyn:

- Cynyddu nifer y staff sy'n cwblhau cymwyseddau'r Gymraeg ar ESR:
 - Cynyddu nifer y staff sy'n cwblhau'r Pecyn E-ddysgu
 - Cynyddu nifer y staff sy'n cael hyfforddiant Cymraeg – pob lefel
 - Cynyddu nifer Aelodau'r Bwrdd Gweithredol sy'n deall ac yn siarad Cymraeg
- Cyfathrebu ac Ymgysylltu â thudalennau Cymraeg ar BetsiNet
- Deall yr angen am ddarpariaeth Gymraeg fesul Rhanbarth fesul Arbenigedd
- Darparu rhagor o Becynnau Hyfforddiant Cymraeg ar gyfer Adrannau
- Cytuno ar Brosesau yn yr Adrannau, er mwyn gwella darpariaeth y Gymraeg ar bob sifft ym mhob Rhanbarth
- Cynnal ymgyrch dysgu Cymraeg wedi'i seilio ar bosteri mewn Derbynfeydd ar safleoedd Betsi Cadwaladr
- Cynyddu nifer y pamffledi "Cynnig Rhagweithiol" ar draws holl safleoedd Betsi Cadwaladr
- Cynyddu'r defnydd o'r Magedau "Cymraeg" Oren mewn wardiau ledled Betsi Cadwaladr
- Cynyddu defnyddio'r Cofnodion Gofal Nyrsio Cymraeg i gryfhau'r defnydd o'r Gymraeg a'r hyn sydd ar gael i gleifion ar wardiau
- Tanategu "Cynnig Rhagweithiol" y Gymraeg mewn Adrannau Brys ac Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys drwy ddefnyddio Meddalwedd Symphony
- Cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar hyfforddiant Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg gyda ffocws penodol ar y 'grwpiau agored i niwed' a nodir yn Fframwaith Strategol Mwy na Geiriau.

ADRAN 2 - CYNLLUN GWEITHREDU A BLAENORIAETHAU AR GYFER 2019 - 2024

Bydd yr Adolygiad o'r Strategaeth a gyhoeddir ym mlwyddyn 3, yn adeiladu ar arfer gorau ac yn llywio camau gweithredu a nodwyd i'w rhoi ar waith ar draws y

bwrdeistrefi sy'n weddill er mwyn gwreiddio'r strategaeth hon ar draws y Bwrdd lechyd.

1. Mesurau perfformiad a rheoli

Mae Grŵp Strategol y Gymraeg wedi cytuno ar y mesurau deilliant a nodir yn Adran 1 a'r mesurau perfformiad a fydd yn cael eu defnyddio i fonitro cynnydd.

2. Deilliant 1 – Camau Gweithredu a Chyflawniadau

Deilliant 1: Gwell Prosesau Recriwtio sy'n nodi gallu yn y Gymraeg ar y pwynt ymuno, gan gefnogi'r gwaith o gyflawni Safon 110

Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5
Camau Gweithredu • Bydd pob Swydd Ddisgrifiad a Manyleb yr Unigolyn yn nodi bod hyfedredd yn y Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol; • Bydd pob Swydd Ddisgrifiad a Manyleb yr Unigolyn yn amlygu bod Hyfforddiant Cymraeg ar gael yn BIPBC a bydd yr amser a gymerir i hyfforddi yn cael ei gynnwys fel rhan o Amser Sifft; • Dechrau hyfforddi Rheolwyr Cyflogi ynglŷn â lefel y flaenoriaeth a roddir i hyfedredd yn y	Camau Gweithredu: • Cwblhau hyfforddi Rheolwyr Cyflogi ynglŷn â lefel y flaenoriaeth a roddir i hyfedredd yn y Gymraeg wrth raddio ymgeiswyr • Nodi unrhyw gamau pellach i wella'r Prosesau Recriwtio ar gyfer Hyfedredd yn y Gymraeg	Camau Gweithredu: • Adolygu'r strategaeth i werthuso'r 3 blynedd gyntaf - y gwerthuso i lywio'r camau gweithredu ym mlwyddyn 4; • Hyfforddiant gloywi wedi'i dargedu i Reolwyr Cyflogi ynglŷn â lefel y flaenoriaeth a roddir i hyfedredd yn y Gymraeg • Nodi unrhyw gamau pellach i wella'r Prosesau Recriwtio ar gyfer Hyfedredd yn y Gymraeg • Rhoi unrhyw gamau pellach ar waith i wella'r Prosesau Recriwtio ar gyfer	Camau Gweithredu: • Hyfforddiant gloywi wedi'i dargedu i Reolwyr Cyflogi ynglŷn â lefel y flaenoriaeth a roddir i hyfedredd yn y Gymraeg • Nodi unrhyw gamau pellach i wella'r Prosesau Recriwtio ar gyfer Hyfedredd yn y Gymraeg • Rhoi unrhyw gamau pellach ar waith i wella'r Prosesau Recriwtio ar gyfer Hyfedredd yn y Gymraeg	Camau Gweithredu: • Cyhoeddi adolygiad strategaeth i werthuso'r cynllun 5 mlynedd – mesurau i gynnal a chynnwys camau gweithredu ar gyfer y cyfnod 5 mlynedd nesaf; • Hyfforddiant gloywi wedi'i dargedu i Reolwyr Cyflogi ynglŷn â lefel y flaenoriaeth a roddir i hyfedredd yn y Gymraeg • Nodi unrhyw gamau pellach i wella'r Prosesau Recriwtio ar gyfer Hyfedredd yn y Gymraeg • Rhoi unrhyw gamau pellach ar waith i wella'r Prosesau Recriwtio ar gyfer

Gymraeg wrth raddio ymgeiswyr		Hyfedredd yn y Gymraeg		Hyfedredd yn y Gymraeg
Cyflawniadau: Adrodd ar argaeledd a hyfedredd Dechreuwyr Newydd yn y Gymraeg	Cyflawniadau: Adrodd ar argaeledd a hyfedredd Dechreuwyr Newydd yn y Gymraeg	Cyflawniadau: Adrodd ar argaeledd a hyfedredd Dechreuwyr Newydd yn y Gymraeg	Cyflawniadau: Adrodd ar argaeledd a hyfedredd Dechreuwyr Newydd yn y Gymraeg	Cyflawniadau: Adrodd ar argaeledd a hyfedredd Dechreuwyr Newydd yn y Gymraeg

3. Deilliant 2 – Camau Gweithredu a Chyflawniadau

Deilliant 2: Gwell Prosesau Cynefino sy'n amlygu pwysigrwydd y Gymraeg a chyflwyno'r "Cynnig Rhagweithiol" yn BIPBC, a chyfleu'r cyfleoedd sydd ar gael ar gyfer Hyfforddiant Cymraeg

Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5
Camau Gweithredu: - Cynnwys Fideo Hyfforddiant y Gymraeg fel rhan o'r pecyn cynefino; Gwella'r broses o gasglu gwybodaeth Hyfedredd yn y Gymraeg ar ESR. Tynnu sylw at yr holl gyrsiau hyfforddiant Cymraeg sydd ar gael yn BIPBC y gellir eu dilyn fel rhan o oriau sifft.	Camau Gweithredu: - Adolygu Fideo Hyfforddiant y Gymraeg yn y pecyn cynefino a'i wella yn ôl yr angen; - Adolygu sut y cesglir gwybodaeth Hyfedredd yn y Gymraeg ar ESR. Nodi unrhyw gamau gweithredu neu adborth i wella'r broses gynefino.	Camau Gweithredu: - Adolygu Fideo Hyfforddiant y Gymraeg y pecyn cynefino yn strategol, a'i wella yn ôl yr angen; - Rhoi unrhyw gamau gweithredu a nodir ym Mlwyddyn 2 ar waith - Nodi unrhyw gamau gweithredu neu adborth i wella'r broses gynefino.	Camau Gweithredu: - Diweddarw proses gynefino'r Gymraeg yn unol â'r camau a nodwyd ym mlwyddyn 3 - Tynnu sylw at yr holl gyrsiau Hyfforddiant y Gymraeg sydd ar gael yn BIPBC y gellir eu dilyn fel rhan o oriau sifft.	Camau Gweithredu: - Cynnal archwiliad ac adrodd ar gynnydd 5 mlynedd Deilliant 2 - Rhoi unrhyw gamau gweithredu a nodir ym Mlwyddyn 4 ar waith - Nodi cyfleoedd i wella yn y cylch 5 mlynedd nesaf.

Cyflawniadau: • Diwygio'r pecyn cynefino ar gyfer Dechreuwyr Newydd; • Adrodd ar argaeledd a hyfedredd Dechreuwyr Newydd yn y Gymraeg	Cyflawniadau: • Diwygio'r pecyn cynefino ar gyfer Dechreuwyr Newydd; • Adrodd ar argaeledd a hyfedredd Dechreuwyr Newydd yn y Gymraeg	Cyflawniadau: • Dogfen Adolygiad Strategol 3 blynedd gyntaf Pecyn Cynefino Rhaglen y Gymraeg; • Adrodd ar argaeledd a hyfedredd Dechreuwyr Newydd yn y Gymraeg	Cyflawniadau: • Diwygio'r pecyn cynefino ar gyfer Dechreuwyr Newydd; • Adrodd ar argaeledd a hyfedredd Dechreuwyr Newydd yn y Gymraeg	Cyflawniadau: • Dogfen Adolygiad Strategol 5 mlynedd - Pecyn Cynefino; • Diwygio'r pecyn cynefino ar gyfer Dechreuwyr Newydd; • Adrodd ar argaeledd a hyfedredd Dechreuwyr Newydd yn y Gymraeg
---	---	--	---	---

4. Deilliant 3 – Camau Gweithredu a Chyflawniadau

Deilliant 3: Nodi argaeledd a hyfedredd yn y Gymraeg yn llawn ac yn gywir ledled BIPBC ar lefel a fydd yn cefnogi Cynllunio Gweithredol

Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5
Camau Gweithredu: • Creu mecanwaith adrodd i roi adborth a chymharu cydymffurfiaeth Ranbarthol / Arbenigedd; • Nodi Diffyg Cydymffurfio â'r Gymraeg yn ESR; • Datblygu a lansio ymgrych ymgysylltu	Camau Gweithredu: • Gwerthuso Blwyddyn 1 - Cymharu argaeledd a hyfedredd yn y Gymraeg fesul Rhanbarth ac Arbenigedd; • Nodi Targedau argaeledd a hyfedredd yn y Gymraeg fesul	Camau Gweithredu: • Adolygu strategaeth i werthuso'r 3 blynedd gyntaf - y gwerthuso i lywio'r camau gweithredu i'w cyflwyno ym mhob sir; • Cyhoeddi adroddiad ar gynnydd; • Sicrhau bod data a gyhoeddir yn cael ei	Camau Gweithredu: • Monitro canlyniadau camau gweithredu ym mlynnyddoedd 1-3 ac ystyried mwy o ymyriadau wedi'u targedu	Camau Gweithredu: • Cyhoeddi adolygiad strategaeth i werthuso'r cynllun 5 mlynedd • Nodi mesurau i gynnal y camau gweithredu a gyflawnwyd dros y cyfnod 5 mlynedd diwethaf a chamau

cydymffurfio â'r Gymraeg yn ESR; • Adborth ar gydymffurfio drwy drefniadau llywodraethu'r Gymraeg;	Rhanbarth ac Arbenigedd.	ddadansoddi ar lefel leol a bod ymyriadau wedi'u targedu'n cael eu hystyried a'u rhoi ar waith; • Rhoi ymyriadau wedi'u targedu ar waith i wella cydymffurfio â'r Gymraeg yn ESR.		gweithredu ar gyfer y 5 mlynedd nesaf; • Sicrhau bod data a gyhoeddir yn cael ei ddadansoddi ar lefel leol a bod unrhyw welliannau gwasanaeth posibl yn cael eu hystyried a'u gweithredu lle bo angen.
Cyflawniadau: • Mwy na 95% yn nodi eu cymwyseddau yn y Gymraeg ar ESR • Adroddiadau Cydymffurfio â'r Gymraeg o ESR ddwywaith y flwyddyn	Cyflawniadau: • Dadansoddi'r Bylchau a chynlluniau ar gyfer ymgyrchoedd wedi'u targedu • Adroddiadau Cydymffurfio â'r Gymraeg o ESR ddwywaith y flwyddyn	Cyflawniadau: • Dogfen Adolygu Rhaglen y Gymraeg i nodi llwyddiannau a'r Gwersi a Ddysgwyd • Adroddiadau Cydymffurfio â'r Gymraeg o ESR ddwywaith y flwyddyn	Cyflawniadau: • Cynlluniau ar gyfer ymgyrchoedd wedi'u targedu • Adroddiadau Cydymffurfio â'r Gymraeg o ESR ddwywaith y flwyddyn	Cyflawniadau: • Creu Dogfen Adolygu Strategaeth 5 Mlynedd ar gyfer Rhaglen y Gymraeg • Adroddiadau Cydymffurfio â'r Gymraeg o ESR ddwywaith y flwyddyn

5. Deilliant 4 – Camau Gweithredu a Chyflawniadau

Deilliant 4: Cynllunio Lleol ar lefel Ysbyty ac Arbenigedd sy'n caniatáu argaeledd a hyfedredd yn y Gymraeg i fod yn un o'r meini prawf i'w bodloni

Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5
Camau Gweithredu: • Nodi'r holl gydweithwyr sydd ar	Camau Gweithredu: • Pennu isafswm cydweithwyr	Camau Gweithredu: • Adolygu strategaeth i werthuso'r 3 blynedd	Camau Gweithredu: • Tynnu sylw at unrhyw gamau	Camau Gweithredu:

gael sy'n siarad Cymraeg • Nodi % y boblogaeth leol sy'n siarad Cymraeg • Pennu isafswm cydweithwyr Cymraeg eu hiaith ar gyfer sifftiau safonol mewn Ysbytai • Hyfforddiant cychwynnol E-Restru i gynnwys darparu'r lleiafswm o gydweithwyr sy'n siarad Cymraeg ar gyfer sifft safonol.	Cymraeg eu hiaith ar gyfer sifftiau safonol ym mhob Ysbyty • Cwblhau'r hyfforddiant newydd E-Restru i gynnwys darparu'r lleiafswm o gydweithwyr sy'n siarad Cymraeg ar gyfer sifft safonol.	gyntaf - y gwerthuso i lywio'r camau gweithredu i'w cyflwyno ym mhob sir; • Cyhoeddi adroddiad ar gynnydd; • Tynnu sylw at unrhyw gamau pellach i wella neu ddiweddarau'r safonau gofynnol.	pellach i wella neu ddiweddarau'r safonau gofynnol.	• Cynnal archwiliad ac adrodd ar gynnydd 5 mlynedd Deilliant 4 • Rhoi unrhyw gamau gweithredu a nodir ym Mlwyddyn 4 ar waith • Nodi cyfleoedd i wella yn y cylch 5 mlynedd nesaf • Tynnu sylw at unrhyw gamau pellach i wella neu ddiweddarau'r safonau gofynnol.
Cyflawniadau: • Pennu safonau gofynnol cydweithwyr Cymraeg eu hiaith ar gyfer sifftiau yn y prif Ysbytai • Hyfforddiant cychwynnol ar gyfer E-Restru a Safon 110 ynghyd â'r "Cynnig Rhagweithiol"	Cyflawniadau: • Pennu safonau gofynnol nifer y cydweithwyr Cymraeg eu hiaith ar gyfer sifftiau ym mhob Ysbyty • Cwblhau hyfforddiant E-Restru a Safon 110 ynghyd â'r "Cynnig Rhagweithiol"	Cyflawniadau: • Adolygiad Strategaeth o safonau gofynnol nifer y cydweithwyr sy'n siarad Cymraeg ar sifftiau • Rhoi unrhyw gamau gweithredu neu addasiadau pellach ar waith o ran safonau gofynnol y sifftiau	Cyflawniadau: • Rhoi unrhyw gamau gweithredu neu addasiadau pellach ar waith o ran safonau gofynnol y sifftiau	Cyflawniadau: • Dogfen Adolygiad 5 Mlynedd • Cynlluniau ar gyfer rhoi unrhyw gamau gweithredu neu addasiadau pellach ar waith o ran safonau gofynnol y sifftiau

6. Deilliant 5 – Camau Gweithredu a Chyflawniadau

Deilliant 5: Gwell Prosesau Gweithredol sy'n cefnogi ac yn tanategu defnyddio Safon 110 mewn Ysbytai

Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5
Cynyddu amlygrwydd y Gymraeg mewn meysydd clinigol - dosbarthu posterï'r Cynnig Rhagweithiol ym mhob maes clinigol; • Cip archwiliadau o feysydd clinigol wedi'u targedu i fonitro cydymffurfiaeth; • Creu a rhaeadru pecyn cymorth y Cynnig Rhagweithiol; • Darparu Sesiynau Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar gyfer adrannau/uwch	Camau Gweithredu: Gwerthusiad o'r cip archwiliadau a gynhaliwyd yn ystod blwyddyn 1 - gosod targedau i wella cydymffurfiaeth; • Gwerthuso ac adolygu pecyn cymorth; • Gwerthuso'r nifer sy'n cymryd rhan mewn sesiynau Ymwybyddiaeth Iaith Blwyddyn 1 ar gyfer adrannau / uwch adrannau a dargedwyd; • Gwerthuso'r nifer sy'n manteisio ar e-Ddysgu Cymraeg Blwyddyn 1.	Camau Gweithredu: Adolygiad strategaeth i werthuso'r 3 blynedd gyntaf - gwerthusiad i lywio camau gweithredu i'w cyflwyno ar draws siroedd eraill ym mlwyddyn 4; • Cyhoeddi adroddiad ar gynnydd; • Sicrhau bod data a gyhoeddir yn cael ei ddadansoddi ar lefel leol a bod unrhyw welliannau gwasanaeth posibl yn cael eu hystyried a'u gweithredu lle bo angen	Camau Gweithredu: Sefydlu mecanwaith ffurfiol ar gyfer cydnabod cyfraniad eithriadol at gyflawni agenda'r Gymraeg; • Monitro deilliannau'r camau gweithredu ym mlynnyddoedd 1-3 ac ystyried potensial o fewn siroedd eraill; • Sefydlu Fforymau Cleifion Cymraeg ar draws pob sir.	Camau Gweithredu: Cyhoeddi adolygiad strategaeth i werthuso cynllun 5 mlynedd – mesurau i gynnal y camau gweithredu a gyflawnwyd dros y cyfnod 5 mlynedd diwethaf a chamau gweithredu ar gyfer y cyfnod 5 mlynedd nesaf; • Sicrhau bod data a gyhoeddir yn cael ei ddadansoddi ar lefel leol a bod unrhyw welliannau gwasanaeth posibl yn cael eu hystyried a'u gweithredu lle bo angen. • Papur i'r Tîm Gweithredol i sefydlu sesiynau Ymwybyddiaeth o'r

adrannau a dargedir; • Cynyddu nifer y staff sydd wedi'u targedu sy'n defnyddio e-Ddysgu Cymraeg • Sefydlu Fforwm Cleifion y Gymraeg yn yr ardal darged i ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth; • Ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth i gael profiad y claf; • Monitro nifer y defnyddwyr gwasanaeth sy'n siarad Cymraeg sy'n gofyn am ymgynghoriad clinigol yn y Gymraeg.	Ymgych Gyfathrebu i rannu profiadau cleifion â staff y bwrdd iechyd.			Gymraeg ar yr holl raglenni perthnasol.
Cyflawniadau:	Cyflawniadau:	Cyflawniadau:	Cyflawniadau:	Cyflawniadau:

7. Deilliant 6 – Camau Gweithredu a Chyflawniadau

Deilliant 6: Gwella Cyfathrebu ac Ymgysylltu ar Hyfforddiant Iaith Gymraeg ac Argaeledd ar draws BIPBC				
Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5
Camau Gweithredu: - Nodi'r prif bwyntiau yn ystod y flwyddyn pryd y gellir dathlu'r Gymraeg a chreu Cynllun Cyfathrebu sy'n seiliedig ar yr amseroedd allweddol hyn; - Dylunio, creu a lleoli posteri ar gyfer ymgyrch Ymgysylltu â Hyfforddiant y Gymraeg - Cyflwyno'r Cynllun Cyfathrebu a'r Ymgyrch Ymgysylltu - Adolygu data BetsiNet a nodi effaith Cyfathrebu	Camau Gweithredu: - Creu Cynllun i wella argaeledd Hyfforddiant y Gymraeg trwy E-ddysgu a Chyfathrebu - Sicrhau bod data o'r flwyddyn flaenorol yn cael ei ddadansoddi a bod unrhyw wersi posibl yn cael eu dysgu - Pennu Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu ar gyfer y flwyddyn a'i roi ar waith	Camau Gweithredu: - Cynnal Adolygiad Strategol 3 blynedd o'r Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu - Creu cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu ar gyfer y 2 flynedd nesaf - Nodi unrhyw ymgyrchoedd ar gyfer hyfforddi'n lleol yn y dyfodol a'i fwydo i'r Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu	Camau Gweithredu: - Adolygu'r Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu 2 Flynedd - Nodi unrhyw ymgyrchoedd ar gyfer hyfforddi'n lleol yn y dyfodol a'i fwydo i'r Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu	Camau Gweithredu: - Cynnal Adolygiad 5 mlynedd o'r Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu - Creu cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu Cymraeg lefel uchel ar gyfer y 5 mlynedd nesaf - Nodi unrhyw ymgyrchoedd ar gyfer hyfforddi'n lleol yn y dyfodol a'i fwydo i'r Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu
Cyflawniadau: - Cynllun Cyfathrebu Blynnyddol - Ymgyrch ymgysylltu ar y ddarpariaeth Gymraeg a Safon 110	Cyflawniadau: - Cynllun Cyfathrebu Blynnyddol - Cynhyrchu data Adrodd ar gyfer Cyfathrebu ac Ymgysylltu	Cyflawniadau: - Dogfen Adolygiad Strategol 3 Blynedd - Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu 2 Flynedd	Cyflawniadau: - Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu 2 Flynedd wedi'i ddiweddarau - Cynhyrchu data Adrodd ar gyfer	Cyflawniadau: - Cynllun Cyfathrebu ac Ymgysylltu 5 Mlynedd - Cynhyrchu data Adrodd ar gyfer

Cynhyrchu data Adrodd ar gyfer Cyfathrebu ac Ymgysylltu		Cynhyrchu data Adrodd ar gyfer Cyfathrebu ac Ymgysylltu	Cyfathrebu ac Ymgysylltu	Cyfathrebu ac Ymgysylltu
---	--	---	--------------------------	--------------------------

8. Deilliant 7 – Camau Gweithredu a Chyflawniadau

Deilliant 7: Rhoi Fframwaith adrodd ar waith sy'n cefnogi cynllunio gweithredol ac yn amlygu cynnydd

Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 4	Blwyddyn 5
Camau Gweithredu: - Nodi rhestrau llawn o'r holl fesurau "dymunol" i gefnogi Rhaglen y Gymraeg - Nodi tarddiad, cynulleidfa a RACI ar y mesurau hyn - Dadansoddiad ar y bylchau a'r hyn a ddymunir / sy'n ofynnol / ar gael - Creu templedi adrodd ar gyfer yr holl adroddiadau sydd eu hangen ac amserlenni ar gyfer adrodd	Camau Gweithredu: - Dadansoddiad ar y bylchau a'r hyn a ddymunir / sy'n ofynnol / ar gael - Creu cynlluniau gweithredu ar gyfer mesurau sydd eu hangen - Cynnal adolygiad ar gyfer unrhyw fesurau newydd sydd eu hangen - Addasu templedi adrodd ar gyfer yr holl adroddiadau sydd eu hangen ac amserlenni ar gyfer adrodd	Camau Gweithredu: - Adolygiad Strategol 3 blynedd o fesurau Rhaglen y Gymraeg - Creu cynlluniau gweithredu ar gyfer unrhyw fesurau newydd sydd eu hangen - Addasu templedi adrodd ar gyfer yr holl adroddiadau newydd sydd eu hangen ac amserlenni ar gyfer adrodd	Camau Gweithredu: - Dadansoddiad ar y bylchau a'r hyn a ddymunir / sy'n ofynnol / ar gael - Creu cynlluniau gweithredu ar gyfer mesurau gofynnol - Cynnal adolygiad ar gyfer unrhyw fesurau newydd sydd eu hangen - Addasu templedi adrodd ar gyfer yr holl adroddiadau sydd eu hangen ac amserlenni ar gyfer adrodd	Camau Gweithredu: - Cynnal archwiliad ac adrodd ar gynnydd 5 mlynedd Deilliant 7 - Creu cynlluniau gweithredu ar gyfer mesurau gofynnol - Addasu templedi adrodd ar gyfer yr holl adroddiadau sydd eu hangen ac amserlenni ar gyfer adrodd
Cyflawniadau: Rhestr o'r holl fesurau prosiect y Gymraeg wedi'u nodi	Cyflawniadau: Rhestr wedi'i haddasu o'r holl fesurau prosiect y	Cyflawniadau: Adolygiad Strategol 3 blynedd o Raglen y Gymraeg	Cyflawniadau: Cynllun Gweithredu i gael y Dangosyddion Perfformiad	Cyflawniadau: Adolygiad 5 mlynedd o Raglen y Gymraeg

yn ôl dymunol / gofynnol / ar gael • Cynllun Gweithredu i gael y Dangosyddion Perfformiad Allweddol “gofynnol”. • Cynhyrchu pob adroddiad ar gyfer fforymau adolygu Rhaglen y Gymraeg perthnasol	Gymraeg wedi'u nodi yn ôl dymunol / gofynnol / ar gael • Cynllun Gweithredu i gael y Dangosyddion Perfformiad Allweddol “gofynnol”. • Cynhyrchu pob adroddiad ar gyfer fforymau adolygu Rhaglen y Gymraeg perthnasol	• Rhestr o'r holl fesurau prosiect y Gymraeg wedi'u nodi yn ôl dymunol / gofynnol / ar gael • Cynhyrchu pob adroddiad ar gyfer fforymau adolygu Rhaglen y Gymraeg perthnasol	Allweddol “gofynnol” newydd. • Cynhyrchu pob adroddiad ar gyfer fforymau adolygu Rhaglen y Gymraeg perthnasol	• Cynllun Gweithredu ar gyfer camau nesaf Rhaglen y Gymraeg • Cynhyrchu pob adroddiad ar gyfer fforymau adolygu Rhaglen y Gymraeg perthnasol
--	---	---	---	---